# Cydlynydd Ysgol

## Swydd Ddisgrifiad

TAR-23J : Tystysgrif Addysg i Raddedigion

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Beth mae'n ei olygu i fod yn Gydlynydd Ysgol? 3

Prif rolau a chyfrifoldebau'r Cydlynydd Ysgol 5

Cefnogi dull ysgol gyfan o AGA yn eich ysgol 11

Cefnogi Profiad Ymarfer Dysgu'r Athrawon dan Hyfforddiant 12

Gweithgareddau Ymarfer Dysgu 13

Astudiaeth Gwers 14

Ymchwil ar Raddfa-Fach 15

Gofynion Amserlen y Rhaglen (gan gynnwys yr Ail Brofiad Ysgol) 16

Amserlenni Athrawon dan Hyfforddiant Rhan-amser 16

Amserlenni Athrawon dan Hyfforddiant Cyflogedig 19

TAR 2 Ail Brofiad Ysgol (ABY) 20

Asesu'r athrawon dan hyfforddiant 22

I gloi 23

# Cyflwyniad

**Croeso i Bartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) y Brifysgol Agored. Ein gweledigaeth yw y byddwn, gyda'n gilydd, yn gweithio mewn partneriaeth i waredu rhwystrau mynediad i'r proffesiwn. Ein bwriad yw darparu llwybr hyblyg er mwyn datblygu athrawon rhagorol allai fod yn ei chael hi'n anodd ymuno gyda llwybrau mwy traddodiadol. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a chymunedau ledled Cymru.**

Dyluniwyd y canllaw hwn i gefnogi staff mewn ysgolion Partner (Arweiniol, Cysylltiol neu Gyflogwr) sy'n **Gydlynwyr Ysgol** ac sy'n gyfrifol am **uwch fentora** athrawon dan hyfforddiant ar y llwybrau TAR cyflogedig neu ran-amser gyda'r Brifysgol Agored.

O fewn model y Brifysgol Agored, mae dwy rôl fentora - rôl y Cydlynydd Ysgol a rôl y Mentor pwnc/cyfnod. Mae'r canllaw atodol hwn yn manylu ar weithgareddau penodol y Cydlynydd Ysgol. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Canllaw Ymarfer Dysgu a'r Canllaw Mentoriaid. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau yn ystyried egwyddorion mentora ac asesu effeithiol sy'n ddefnyddiol ar gyfer rôl y Mentor a'r Cydlynydd Ysgol.

## Beth mae'n ei olygu i fod yn Gydlynydd Ysgol?

Mae'r **Cydlynydd Ysgol** yn aelod dynodedig o uwch staff yr ysgol sy'n cydlynu profiad myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a'u mentora (weithiau, mewn partneriaethau eraill, gelwir hyn yn 'Uwch Fentor' neu 'Mentor Proffesiynol').

Yn aml gall yr aelod staff hwn fod â chyfrifoldebau ehangach am AGA ac arwain dull ysgol-gyfan o ddarparu ar gyfer myfyrwyr AGA.

Mae cyfrifoldebau allweddol y rôl hon yn cynnwys:

- cyfathrebu'n effeithiol â Mentoriaid, athrawon dan hyfforddiant, Tiwtoriaid Cwricwlwm a Thiwtoriaid Ymarfer, os oes angen;
- cynnal y cysylltiadau / partneriaeth rhwng eu hysgol a Phartneriaeth y Brifysgol Agored;
- sicrhau fod unrhyw faterion yn cael eu datrys yn gywir ac yn amserol.

Mae gan Gydlynwyr Ysgol gyfrifoldebau sicrhau ansawdd pwysig. Maent yn ymwneud ag asesu ymarfer dysgu'r myfyriwr ar y cyd â'r Mentor, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol ac yn deg o ran asesiad. Dylai'r Cydlynydd Ysgol fynychu hyfforddiant AGA penodol sy'n gysylltiedig â rhaglen TAR y Brifysgol Agored a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes hwn.

Dyma'r sgiliau a'r profiad sy'n berthnasol i gyflawni rôl Cydlynydd Ysgol:

- Bod yn uwch athro cymwysedig mewn ysgol bartner Arweiniol, Gysylltiol neu Gyflogwr sydd â diddordeb proffesiynol brwd mewn datblygu darpariaeth AGA yr ysgol.
- Meddu ar brofiad amlwg o fod yn ymarferydd o ansawdd uchel yn yr ysgol, gyda dealltwriaeth o addysgeg effeithiol.
- Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gymhwyso'r *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*.
- Meddu ar brofiad o fentora myfyrwyr AGA a dealltwriaeth gref o egwyddorion mentora a hyfforddi effeithiol.

- Cymryd rhan mewn datblygiad athrawon ac ymchwil sy'n gysylltiedig â'r maes, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Addysg Gychwynnol Athrawon a dealltwriaeth o sut mae oedolion yn dysgu.
- Dangos sgiliau cyfathrebu da, â'r gallu i wrando a darparu adborth effeithiol i gydweithwyr ar wahanol gamau o'r continwwm dysgu proffesiynol.

## Prif rolau a chyfrifoldebau'r Cydlynydd Ysgol

Mewn amryw o ysgolion Partner, yn aml bydd gan y Cydlynydd Ysgol gyfrifoldeb strategol am Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Efallai eu bod yn gyfrifol am oruchwylio athrawon dan hyfforddiant o Bartneriaeth AGA y Brifysgol Agored ac athrawon dan hyfforddiant o bartneriaethau AGA eraill hefyd. Gall hyn yn golygu eich bod yn gyfrifol am gydlynu profiadau dysgu'r athrawon dan hyfforddiant yn ogystal â nodi, dewis a chefnogi mentoriaid i gefnogi athrawon dan hyfforddiant unigol, ac i oruchwylio ansawdd mentora effeithiol yn eich ysgol.

Ym model y Brifysgol Agored, cytunir bod cydlynwyr ysgol yn cyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:

1. ***Dylunio amserlenni i'r athrawon dan hyfforddiant yn unol â gofynion y rhaglen a bod yn gyfrifol am newidiadau a datblygiadau i'r amserlen wrth i'r rhaglen TAR fynd yn ei blaen.***

Mae myfyrwyr Blwyddyn 1 yn cychwyn y rhaglen ym mis Hydref, tra bydd myfyrwyr Blwyddyn 2 yn cychwyn y rhaglen ym mis Medi. Trwy gydol rhaglen y Brifysgol Agored, bydd angen i chi adolygu a diweddaru amserlenni'r athrawon

dan hyfforddiant. Bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu a yw'r athrawon dan hyfforddiant yn dilyn y llwybr cyflogedig neu ran-amser. Gallwch ddarganfod mwy am ofynion amserlen y rhaglen yn Adran 5, sy'n crynhoi gwybodaeth o'r Canllaw Lleoli Ymarfer Dysgu a rennir gyda'r holl ysgolion ar ddechrau'r rhaglen.

2. ***Dewis a dethol staff â chymwysterau addas fel mentoriaid pwnc (uwchradd) neu fentoriaid cyfnod (cynradd). Fel rhan o hyn, darparu cydgysylltiad a chefnogaeth ar gyfer mentora'r athro dan hyfforddiant yn effeithiol a sicrhau bod darpariaeth ysgol i gefnogi datblygiad sgiliau Iaith Gymraeg yr athro dan hyfforddiant.***

Cyn i'ch athrawon dan hyfforddiant gychwyn ar eu taith TAR, bydd angen i chi gydlynu'r broses o ddewis a dethol y Mentoriaid pwnc/cyfnod. Dyma'r staff fydd yn cefnogi'r myfyriwr o ddydd i ddydd.

Mae mentoriaid yn chwarae rhan hanfodol ym mhrofiad dysgu'r athrawon dan hyfforddiant, ac ym model y Brifysgol Agored, mae mentoriaid yn cael eu hystyried yn gyd-addysgwyr i'r athrawon dan hyfforddiant (ar y cyd â'r Tiwtoriaid Cwricwlwm a'r Tiwtoriaid Ymarfer). Gallwch weld trosolwg o'r disgrifiad swydd ar gyfer mentoriaid yn y Canllaw Mentoriaid. Wrth ddewis mentoriaid, efallai yr hoffech ystyried y sgiliau a'r profiad canlynol, sy'n ofynnol:

- Athro cymwys sy'n cael ei gydnabod am ymarfer hynod effeithiol yn ei gyfnod / pwnc gyda'r gallu i fynegi ei theori ymarfer ei hun.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Addysg Gychwynnol Athrawon a dealltwriaeth o sut mae oedolion yn dysgu.

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gymhwyso'r *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*.
- Dealltwriaeth gref o egwyddorion mentora a hyfforddi effeithiol.
- Yn gallu defnyddio cwestiynau pwerus sy'n cefnogi eu myfyrwyr i ddod yn ymarferwyr adfyfyriol sy'n gallu gweithio'n annibynnol yn y pen draw ac yn ffynnu yn y model addysgu newydd yng Nghymru.
- Meddu ar y sgiliau i gydymdeimlo  â’r athro dan hyfforddiant sy'n dechrau ei yrfa mewn addysg a rhoi adborth adeiladol sy'n briodol i'r cam hwn yn ei ddatblygiad.
- Bod yn agored ac yn barod i fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer mentora eu hunain a dangos awydd i ddatblygu eu harfer eu hunain yn barhaus fel addysgwr athrawon.
- Sgiliau cyfathrebu da, yn gallu gwrando ac â'r gallu i roi adborth effeithiol i gydweithwyr ar wahanol gamau o'r continwwm dysgu proffesiynol.

Yn ddelfrydol, dylai Cydlynwyr Ysgol ddatblygu proses i’w hysgol fedru nodi, dewis a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus a darparu cefnogaeth i'w Mentoriaid.

Er mwyn cefnogi Mentoriaid i gyflawni eu rolau yn effeithiol, bydd angen digon o amser arnynt i gefnogi yr athro dan hyfforddiant. Mae Mentoriaid yn aml yn nodi mai cael amser digonol yw’r un o’r ffactorau pwysicaf i’w galluogi i  fentora’n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys amser i fedru:

- Cynnal sesiwn fentora ar yr amserlen (bob 5 diwrnod i bob myfyriwr)
- Ymgymryd ag arsylwadau gwersi anffurfiol a ffurfiol

- Cwblhau tasgau asesu fel ysgrifennu Adroddiadau Ymarfer Dysgu
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau datblygu mentoriaid fel cyfarfodydd hyfforddi a chymedroli
- Cefnogi'r athro dan hyfforddiant i gynllunio ac asesu gwersi

Ym model y Brifysgol Agored, disgwylir i'r athrawon dan hyfforddiant gael eu hamserlennu mewn ffordd fydd yn eu galluogi i weithio'n agos iawn gyda'u Mentor (gan y bydd disgwyl iddynt arsylwi eu Mentor yn ogystal â chynllunio ac addysgu ochr yn ochr â'u Mentor). Ar gyfer myfyrwyr uwchradd, mae hyn yn golygu y dylai'r athrawon dan hyfforddiant fod ynghlwm wrth o leiaf un o ddosbarthiadau'r Mentor. Ar gyfer myfyrwyr Cynradd, dylid ystyried yn ofalus yn y camau cynnar lle mae myfyrwyr yn cael eu hamserlennu - fel arfer mae'n well i fyfyrwyr weithio gyda'u Mentor, yn hytrach nag athro dosbarth arall, lle bo hynny'n bosibl. Gall hyn fod yn rhan o'ch ystyriaeth wrth nodi a dewis Mentoriaid effeithiol.

Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu cymhwysedd Cymraeg eu hunain a'u disgyblion. Er mwyn cefnogi'r myfyriwr gyda hyn, efallai y byddwch am nodi aelod arall o staff fel Mentor sgiliau iaith Cymraeg ychwanegol, i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg yr athrawon dan hyfforddiant.

3. ***Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o weledigaeth Partneriaeth y Brifysgol Agored ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant. Bod yn gyfarwydd â dulliau allweddol, yn ogystal â phrosesau angenrheidiol, fel yr amlinellir yn y Canllaw Ymarfer Dysgu.***

Fel y Cydlynydd Ysgol, gall Mentoriaid yn eich lleoliad droi atoch chi am gefnogaeth ac arweiniad wrth gyflawni eu rôl. Mae'n bwysig bod Cydlynwyr Ysgol yn deall rhaglen y Brifysgol Agored yn dda a'r hyn fydd ei angen i gefnogi athrawon dan hyfforddiant y Brifysgol Agored. Bydd hyn hefyd yn cynnwys darparu cefnogaeth neu gydlynu ar gyfer ystod o weithgareddau:

- Cefnogi a hwyluso'r **Gweithgareddau Ymarfer Dysgu** sy'n ran ofynnol o'r profiad ysgol (gweler hefyd Adran 4)
- Rhoi cefnogaeth i fentoriaid a'r athrawon dan hyfforddiant yi mgymryd â gweithgareddau **Astudiaeth Gwers** (gweler y Canllaw Ymarfer Dysgu)
- Rhoi cefnogaeth i fentoriaid a'r athrawon dan hyfforddiant ymgymryd ag ymchwil lefel **Meistr ar raddfa fach** ym Mlwyddyn 2 (gweler y Canllaw Ymarfer Dysgu)
- Deall **gofynion asesu'r** athrawon dan hyfforddiant. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys: cymryd rhan mewn arsylwadau ar y cyd (gyda'r Mentor a / neu'r Tiwtor Ymarfer) a cymeradwyo'r adroddiad ymarfer dysgu terfynol. Byddwch yn cefnogi Mentoriaid i wneud asesiadau cywir a dilys o gynnydd y myfyrwyr mewn perthynas â'r *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth* a chyfrannu at sicrhau cysondeb asesu o fewn ac ar draws ysgolion. Bydd y Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu yn darparu arweiniad i ysgolion wrth asesu yr athrawon dan hyfforddiant (gweler Adran 6).

***4. Bydd gan Gydlynwyr Ysgol rôl allweddol wrth sicrhau ansawdd, gan gynnwys sicrhau bod ansawdd y mentora yn effeithiol a sicrhau ansawdd y gwaith o asesu ymarfer dysgu yr athrawon dan hyfforddiant.***

Ym mhob ran o’r rhaglen, gofynnir ichi arsylwi ymarfer yr athrawon dan hyfforddiant o leiaf unwaith fel rhan o’r asesiad o gynnydd tuag at y Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth a darparu adborth crynodol ar gynnydd yr athrawon dan hyfforddiant. Gellir gwneud hyn naill ai gan arsylwi ar y cyd gyda'r Mentor (i gefnogi sicrhau ansawdd [SA] mewnol) neu ochr yn ochr â’r Tiwtor Ymarfer (i gefnogi SA allanol). Fodd bynnag, y bwriad yw bod Tiwtor Ymarfer a Mentor yn cyfarfod i drafod cynnydd yr athrawon dan hyfforddiant yn ehangach ac i hyfforddi'r Mentor. Mae mwy o fanylion yn Adran 6.

Gofynnir i Gydlynwyr Ysgol gyfrannu at adroddiadau asesu diwedd modiwl a rhoi cymeradwyaeth derfynol iddynt (mae prif ran y ffurflen yn cael ei gwblhau gan y Mentor). Trwy gymeradwyo’r adroddiad y Mentor, rydych yn cadarnhau eich bod yn cytuno ag asesiad y Mentor o’r athrawon dan hyfforddiant, yn ogystal â chymeradwyo ansawdd yr adroddiad a ysgrifennwyd.

Weithiau, efallai y bydd angen darparu arsylwad / ymyrraeth ychwanegol yn unol â'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr (FfCF – Student Support Framework (SSF) yn Saesneg). Gwahoddir Cydlynwyr Ysgol i gymryd rhan ffurfiol yn ystod y cam achos pryder o'r broses FfCF/SSF, ond yn ymarferol, maent yn aml yn rhan o’r broses cyn hyn. Mae mwy o wybodaeth am y broses FfCF ar gael yn y Canllaw Ymarfer Dysgu.

# Cefnogi dull ysgol gyfan o AGA yn eich ysgol

Yn rôl y Cydlynydd Ysgol, chi fydd y prif bwynt cyswllt rhwng y Brifysgol Agored a'ch ysgol. Gall y Cydlynydd Ysgol hefyd gael ei enwebu i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Partneriaeth ar ran eu pennaeth. Yn ystod adolygiad Estyn neu ymweliad monitro Cyngor y Gweithlu Addysg, mae'n debygol y byddwch yn gweithredu fel person allweddol. Mae'n bosibl y bydd y mentor pwnc/cyfnod yn newid dros amser, ond mae'r Cydlynydd Ysgol fel arfer yn aros yn gyson.

Mewn llawer o ysgolion, efallai y bydd gan y Cydlynydd Ysgol gyfrifoldebau ehangach yn eu lleoliad, megis cefnogi AGA gan Bartneriaethau eraill neu gefnogi athrawon gyrfa-gynnar eraill. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried sut y gall eich athrawon dan hyfforddiant elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol ehangach yn eich ysgol, neu i ddarparu cyfleoedd i'r athrawon dan hyfforddiant weithio mewn grwpiau neu gydweithio â staff eraill ledled yr ysgol. Mae agweddau ar y rhaglen, megis mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn Astudiaeth Gwers, neu athrawon dan hyfforddiant yn ymgymryd ag ymchwil ar raddfa-fach, hefyd yn darparu cyfleoedd i wella arfer eraill ac i rannu canfyddiadau â chymuned yr ysgol gyfan. Gall gyfrannu at sut mae'ch ysgol yn datblygu fel Sefydliad Dysgu, neu sut mae'ch ysgol yn datblygu diwylliant ymchwil ac ysgolheictod.

Mae'n debygol y bydd gennych orolwg strategol ehangach o AGA neu'n cyfrannu'n sylweddol at hyn yn eich ysgol ar ran Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored. Efallai y bydd yr adnodd '10 ffordd i Gefnogi AGA yn eich Ysgol' yn

ddefnyddiol wrth ystyried sut i ddatblygu strategaethau ehangach ar gyfer AGA yn eich ysgol.

Yn ogystal â chydlynu profiad athrawon dan hyfforddiant y Brifysgol Agored yn eich lleoliad, byddwch hefyd yn cefnogi darpariaeth mentora ar gyfer y staff sy'n mentora myfyrwyr y Brifysgol Agored.

Gwahoddir Mentoriaid i ymuno â sesiynau datblygu gyda Phartneriaeth AGA y Brifysgol Agored, darperir deunyddiau sefydlu/hyfforddi a chynigir sesiynau galw-i-mewn ar-lein rheolaidd. Bydd Mentoriaid yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi gyda Thiwtor Ymarfer ddwywaith y flwyddyn. Anogir Mentoriaid hefyd i gwblhau cwrs Open Learn 'Meddylfryd Mentora'. (gan ennill tystysgrif cwblhau) neu i fyfyrio ar eu harfer gan ddefnyddio'r archwiliad sgiliau Mentor. Gwahoddir cydlynwyr ysgol hefyd i gwblhau'r modiwl ar-lein 'Meddylfryd Mentora' ac i gynnal yr archwiliad sgiliau sydd ar gael yn y Canllaw Mentoriaid.

## Cefnogi Profiad Ymarfer Dysgu'r Athrawon dan Hyfforddiant

Cyfeirir at yr amser a dreulir gan yr athrawon dan hyfforddiant yn addysgu yn yr ysgol fel 'Ymarfer Dysgu'. Ar gyfer athrawon dan hyfforddiant Rhan-Amser, bydd hyn yn golygu pob diwrnod y maent wedi cytuno ei dreulio gyda chi, ar sail 'pro rata'. Ar gyfer athrawon dan hyfforddiant cyflogedig, bydd hyn yn golygu y rhan o'u hamserlen sydd wedi'i dynodi'n amser Ymarfer Dysgu.

Dyluniwyd model y Brifysgol Agored i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu fesul tipyn, gan gynyddu eu hamser addysgu yn raddol wrth i'r rhaglen

fynd yn ei blaen. Mae athrawon dan hyfforddiant **blwyddyn 1** (ar y llwybr rhan-amser a chyflogedig) yn canolbwyntio ar **ymgyfarwyddo** ac **atgyfnerthu** eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, tra bod **myfyrwyr Blwyddyn 2 ar y ddau lwybr yn dod yn fwyfwy annibynnol**. Ym mlwyddyn 1, mae athrawon dan hyfforddiant ar y llwybr Cyflogedig yn cael eu goruchwylio yn ystod yr Ymarfer Dysgu, ond gallant addysgu'r annibynnol ym Mlwyddyn 2. **Ar y llwybr Rhan-Amser, rhaid goruchwylio'r athrawon dan hyfforddiant bob amser**.

Mae'r amser mae'r athrawon dan hyfforddiant yn treulio'n addysgu yn cynyddu'n raddol yn ystod y rhaglen. Yn gyffredinol, dylai'r amser Ymarfer Dysgu gynnwys nifer o elfennau:

- Graddoli'r amser a dreulir yn dysgu ar draws y tri modiwl gan ddechrau ar 30% ym mlwyddyn 1 ac adeiladu i 70%-75% ym mlwyddyn 2. Bydd myfyrwyr yn dechrau trwy arsylwi, yna'n adeiladu at addysgu rhannau o wersi addysgu ac addysgu tîm, cyn symud ymlaen i ddysgu gwersi cyfan ac yna dilyniannau o wersi.
- Amser i gynllunio, paratoi ac asesu ar yr amserlen.
- Amser i ymgymryd â Gweithgareddau Ymarfer Dysgu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys Astudio Gwersi yn TAR1 a TAR2 ac ymchwil ar raddfa fach yn TAR3.
- Amser i gymryd rhan mewn sesiwn mentor ar yr amserlen.

## Gweithgareddau Ymarfer Dysgu

Mae amser ymarfer dysgu yr athrawon dan hyfforddiant yn cael ei sgaffaldio gan gyfres o Weithgareddau Ymarfer Dysgu. Mae'r Gweithgareddau Ymarfer Dysgu (GYD) hefyd yn un o'r strategaethau 'pontio' a ddefnyddir i gynorthwyo athrawon

dan hyfforddiant i integreiddio eu gwybodaeth am theori ac ymarfer. Mae mentoriaid a chydlynwyr ysgol yn hwyluso’r gweithgareddau, gan gytuno gyda'r myfyriwr pryd ac ym mha drefn y dylent gwblhau gweithgareddau. Dylai hyn gael ei ystyried yn rhan o amserlen ymarfer dysgu'r athro dan hyfforddiant. Trwy gwblhau pob gweithgaredd, mae'n sicrhau y byddant wedi cael yr ystod lawn o brofiadau dysgu sydd eu hangen i gwblhau asesiad diwedd modiwl.

Adolygwch y gweithgareddau hyn ar ddechrau pob modiwl ac ystyriwch pa aelodau staff all gynorthwyo (Cydlynydd ADY; arweinwyr MDaPh); pa weithgareddau sy’n addas i wahanol adegau o’r flwyddyn; pa weithgareddau fyddai’n cael ei hwyluso fel grŵp o fyfyrwyr.

## Astudiaeth Gwers

Mae astudiaeth gwers yn fath penodol o ymchwil gweithredol yn yr ystafell ddosbarth lle mae athrawon dan hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth ymarfer athrawon. Mae Tiwtor Cwricwlwm y Brifysgol Agored yn cyflwyno’r dull astudiaeth gwersi mewn seminar ar-lein. Mae hyn yn cychwyn proses yn yr ysgol rhwng y Mentor a'r athro dan hyfforddiant sy’n cynnwys cyd-gynllunio, arsylwi ar y cyd a dadansoddi gan ganolbwyntio ar ddysgu’r disgyblion o fewn cylch o wersi ymchwil.

Yn y camau cychwynnol, mae’r athrawon dan hyfforddiant yn cynllunio'n fanwl gyda'u Mentor. Gall hyn helpu i wella technegau addysgu ac mae'n caniatáu canolbwyntio ar ddulliau pedagogaidd ehangach, er enghraifft, canolbwyntio ar AaGD (AfL), trwy ddatblygu gwybodaeth am gynnwys pedagogaidd yr athrawon dan hyfforddiant (Cerbin a Kopp, 2006 yn Coenders a Verhoef, 2018). Mae'r

Mentor, ynghyd â'r Tiwtor Cwricwlwm, yn cynrychioli unigolion mwy gwybodus sydd, trwy'r broses o gydweithio â'r athro dan hyfforddiant, yn ffurfio cymuned ddysgu. Y ffocws ar y cam nesaf yw i'r Mentor a'r athro dan hyfforddiant ddysgu'r wers gyda'i gilydd, ond mae'r arsylwi'n canolbwyntio ar ddysgu'r disgyblion. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i greu profiad 'diogel' i athrawon sy'n dechrau ar eu taith (Coenders a Verhoef, 2018) yn ogystal â chefnogi'r athrawon dan hyfforddiant i gymharu beth roeddent yn credu y byddai'r disgyblion yn ei ddysgu yn ystod y camau cynllunio gyda'r hyn yr oedd eraill yn eu gweld yn ystod y wers. Yna caiff canfyddiadau'r astudiaeth wers a gynhaliwyd gyda chefnogaeth y Mentor eu gwerthuso a'u trafod ymhellach yn y seminarau ar-lein gyda'r Tiwtor Cwricwlwm.

Mewn cylch astudio gwersi traddodiadol, mae canfyddiadau'r astudiaeth wers yn aml yn cael eu rhannu. Gall ysgolion sydd wedi mabwysiadu astudiaeth wers fel math o ddysgu proffesiynol ddewis ystyried sut y gall hyn gefnogi dulliau ysgol gyfan o wella addysgu a dysgu, ac mae'n enghraifft dda o sut y gall dull ysgol gyfan o gefnogi AGA fod o fudd i ysgol.

Gallwch ddarllen mwy am astudio gwersi yn y Canllaw Mentoriaid.

## Ymchwil ar Raddfa-Fach

Yn ail flwyddyn y rhaglen, mae'r athrawon dan hyfforddiant yn symud ymlaen i weithio ar lefel Meistr. Gofynnir iddynt gynnal astudiaeth ymchwil graddfa-fach yng nghyd-destun eu hysgol. Byddwch am ystyried sut y gallech gefnogi'ch myfyriwr dan hyfforddiant gyda'r broses hon. Bydd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau eich bod yn trafod ystyriaethau moesegol gyda'r athrawon dan hyfforddiant a'u cefnogi i gael unrhyw gymeradwyaethau angenrheidiol yn eich ysgol.
- Cymryd diddordeb yn ymchwil eich athrawon dan hyfforddiant a darparu cefnogaeth i bob myfyriwr a'i fentor lle bo angen.

Ystyried sut y gallai eich ysgol elwa o ymchwil eich athro dan hyfforddiant. A oes ffordd y gallai hyn gael ei ddathlu a'i rannu ag eraill yn eich ysgol?

## Gofynion Amserlen y Rhaglen (gan gynnwys yr Ail Brofiad Ysgol)

Mae Cydlynydd Ysgol hefyd yn gyfrifol am gydlynu amserlenni athrawon dan hyfforddiant. Bydd trefn hyn yn dibynnu a yw'r athrawon dan hyfforddiant yn dilyn y llwybr cyflogedig neu ran amser. Ceir trosolwg yn yr adran hon ac yn y diagram isod, am fwy o fanylion gweler y Canllaw Ymarfer Dysgu a'r:


- Canllaw i Ymarfer Dysgu
- Canllaw Lleoli Ymarfer Dysgu (Cyflogedig)
- Canllaw Lleoli Ymarfer Dysgu (Rhan Amser)

## Amserlenni Athrawon dan Hyfforddiant Rhan-amser

Dros y ddwy flynedd, rhaid i'r athrawon dan hyfforddiant rhan amser fynychu dwy ysgol a chwblhau cyfanswm o 120 diwrnod o ymarfer dysgu. Bydd y rhan fwyaf o

fyfyrwyr rhan amser yn cwblhau eu diwrnodau ymarfer dysgu dros 2-3 diwrnod yr wythnos o fewn pob cyfnod ymarfer dysgu. Efallai y bydd rhai yn dewis ei gwblhau mewn bloc. **Rhaid** i fyfyrwyr Blwyddyn 2 gwblhau o leiaf 30 o'u 60 diwrnod mewn bloc. Ystyrir diwrnod fel y nifer arferol o oriau ysgol + amser cyfeiriedig yn eich ysgol.

Unwaith y bydd myfyriwr rhan amser wedi'i leoli yn eich ysgol, gofynnir iddynt gysylltu â’r Cydlynydd Ysgol yn uniongyrchol i gytuno pryd y bydd byddant yn mynychu’r ysgol. Er y bydd llawer o wahanol ymrwymiadau gan athrawon dan hyfforddiant, disgwylir eu bod **ar gael am ddiwrnodau llawn yn unol â disgwyliadau'r staff addysgu eraill.** Dylai'r diwrnodau presenoldeb y cytunir arnynt fod yn gyson ac yn gyfleus i'r myfyriwr a'r ysgol a thros amser mae angen sicrhau bod myfyrwyr yn profi'r ehangder a dyfnder llawn o brofiad yn eu cyfnod neu bwnc sy'n ofynnol i fodloni'r safonau SAC. Dylid cytuno ar unrhyw absenoldeb neu egwyl o flaen llaw ac yn unol â pholisi absenoldeb TAR y Brifysgol Agored. Mae'n ofyniad statudol i fyfyrwyr gwblhau 120 diwrnod dros ddwy flynedd ac felly rhaid cwblhau unrhyw ddiwrnodau a gollwyd. Bydd angen amserlennu athrawon dan hyfforddiant ar y llwybr uwchradd i addysgu'r pwnc y maent yn ceisio cymhwyso ynddo. Bydd angen i bob athro dan hyfforddiant ddangos, dros amser, y gallu i gynllunio, addysgu ac asesu dilyniannau o wersi.




*Ffigur 1: Trosolwg o'r rhaglen rhan-amser*

Ni ddylid gofyn i'r athrawon dan hyfforddiant addysgu trwy'r holl amser yn ystod eu dyddiau yn yr ysgol. Bydd angen amser arnynt hefyd:

- I gwblhau Gweithgareddau Ymarfer Dysgu
- I gynllunio, paratoi ac asesu
- I gymryd rhan mewn sesiwn Mentor ar yr amserlen (bob 5 diwrnod)

# Amserlenni Athrawon dan Hyfforddiant Cyflogedig

Dyma amlinelliad o drefn y rhaglen TAR i fyfyrwyr cyflogedig:

Ymgyfarwyddo

**Blwyddyn 1 – EE306: 60 Credyd, Lefel 6**

- Hydref - Hanner Tymor Chwefror
- 2.5 diwrnod cyflogaeth
- 1.5 ymarfer dysgu o dan oruchwyliaeth
- 1 diwrnod astudio ar-lein

Atgyfnerthu

**Blwyddyn 1 – EE306**

- Mawrth - Mai
- 2.5 diwrnod cyflogaeth. Gall ostwng i 2 ddiwrnod
- 2 ymarfer dysgu o dan oruchwyliaeth
- 0.5 diwrnod astudio ar-lein

Atgyfnerthu (Parhad)

**Blwyddyn 1 – EE306: Ail Brofiad Ysgol**

- Mehefin - Gorffennaf
- 1 diwrnod o gyflogaeth (yn dibynnu ar statws ysgol)
- 1 diwrnod o astudio ar-lein
- 3/4 diwrnod ABY

Annibyniaeth

**Blwyddyn 2 - EE806**

- Hyd at 3.5 diwrnod yr wythnos o addysgu annibynnol gyda monitro
- CPA o 1 diwrnod
- 0.5 diwrnod astudio ar-lein
- Cyfleoedd cyfoethogi dewisol


*Ffigur 2: Trosolwg o'r Rhaglen Cyflogedig*

# TAR 2 Ail Brofiad Ysgol (ABY)

Mae'n ofyniad statudol cenedlaethol ar gyfer pob cymhwyster TAR yng Nghymru bod myfyrwyr cael profiad ymarfer dysgu mewn dau leoliad ysgol gwahanol. Felly mae'r ail brofiad ysgol yn **orfodol**. Sylwch **na** fyddwn yn gallu derbyn ceisiadau sy'n gofyn i'r athrawon dan hyfforddiant i beidio ymgymryd â'r ABY na cheisiadau iddynt ymgymryd â phrofiad byrrach, neu brofiad ar amser gwahanol. Dyluniwyd y rhaglen i ddarparu ar gyfer yr Ail Brofiad Ysgol **ar ddiwedd tymor yr Haf** (Mehefin a Gorffennaf). Trefnir hyn gan y Brifysgol Agored.


Dylid amserlennu wythnos y myfyriwr fel a ganlyn (nodwch fod yr amserlen yn wahanol, gan ddibynnu ar statws yr ysgol gyflogi):

Os oes gennych statws Ysgol **Gyflogi:**




*Ffigwr 3: ABY ar gyfer ysgolion cyflogi*

Os oes gennych statws ysgol **Arweiniol** neu Ysgol **Cysylltiol:**




*Ffigwr 4: ABY Ysgolion Arweiniol neu Gysylltiol*

# Asesu'r athrawon dan hyfforddiant

Caiff yr athrawon dan hyfforddiant eu hasesu yn flynyddol. Maent yn cyflwyno Aseiniad mae'r Tiwtor yn Marcio (ATM) ac Asesiad Diwedd Modiwl (ADM). Ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae'r ADM yn cynnwys 2 ran: mae Rhan 1 yn gyfres o dasgau aseiniad academaidd; Mae Rhan 2 yn e-bortffolio o dystiolaeth o gynnydd tuag at y safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC). Gelwir yr e-bortffolio yn Basbort Dysgu Proffesiynol (PDP).

Caiff ymarfer dysgu'r myfyrwyr ei asesu gan y Mentor, Cydlynydd Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer. Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau yn cael eu cwblhau gan y Mentor ar ffurf arsylwadau gwersi ffurfiol a rheolaidd. Bydd dyddiadau'r rhain yn cael eu rhannu yn y Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol. Gallwch ddarllen mwy am sut i ymgymryd ag arsylwadau gwersi ar gyfer Partneriaeth y Brifysgol Agored yn y Canllaw Mentoriaid.

Fel Cydlynydd Ysgol, mae gennych rôl sicrhau ansawdd allweddol i'w chwarae. Byddwch yn sicrhau ansawdd y dyfarniadau asesu a wneir. **Gofynnwn i Gydlynwyr Ysgol sicrhau eu bod yn arsylwi'r athro dan hyfforddiant yn ffurfiol ddwywaith ar draws y flwyddyn**. O ran yr arsylwadau hynny, **gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn arsylwi'r gwersi mae'r myfyriwr yn recordio ar IRIS Connect i'r Tiwtor Ymarfer**. Hynny yw, byddwch chi yn arsylwi'r wers yn fyw yn y dosbarth ac yna'r Tiwtor Ymarfer yn arsylwi ar y recordiad.

Bydd gan bob myfyriwr Diwtor Ymarfer. Mae’r Tiwtor Ymarfer yn berson allanol i'r ysgol. Byddant yn gwneud arsylwad ar-lein o bob athro dan hyfforddiant yn addysgu. Gofynnir i'r Tiwtor Ymarfer wneud asesiad o gynnydd yr athro dan hyfforddiant yn seiliedig ar yr arsylwi gwersi ac yn dilyn deialog broffesiynol ehangach gyda'r Mentor a'r athro dan hyfforddiant.

Yn flynyddol, gofynnir i fentoriaid gwblhau Adroddiad Ymarfer Dysgu. Mae hwn yn asesiad cyffredinol o gynnydd yr athro dan hyfforddiant mewn perthynas â'r safonau proffesiynol. Byddwch chi, fel Cydlynydd Ysgol, yn cwblhau adran ar y ffurflen Adroddiad Ymarfer Dysgu, i ddangos eich bod yn cytuno gyda sylwadau, targedau a dyfarniadau'r Mentor. Mae Tiwtoriaid Ymarfer hefyd yn cwblhau asesiad cyffredinol mewn adran benodol o’r Adroddiad Ymarfer Dysgu. Gofynnir i'r holl Fentoriaid, Cydlynwyr Ysgol a’r Tiwtoriaid Ymarfer i ddefnyddio'r **Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu** i'w cefnogi wrth asesu pob athro dan hyfforddiant, mae’r fframwaith hon ar gael ar wefan y Bartneriaeth.

# I gloi

Dylid darllen y canllaw atodol hwn ar y cyd â'r Canllaw Ymarfer Dysgu a/neu'r Canllaw Mentoriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach yn ymwneud â chynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â TAR-Cymru@Open.ac.uk

Diolch i chi am gytuno i ymgymryd â’r rôl hanfodol hon yn nhaith yr athrawon dan hyfforddiant. Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r profiad.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru